**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR**
**a gynhaliwyd ar y 7ed o Ebrill 2015**
**am 8.00 y.h**

**PRESENNOL:- Cynghorwyr:- Dewi Rattray ( Cadeirydd ); John Davies; Rowland Jones; Richard Davies; Meirion Davies; Ada Evans; Dylan Edwards; Caredig Jones; Meic Francis a Ann Tudor.**

Croesawyd yr aelodau gan y Cadeirydd a chroesawodd Angharad Carr sef y Clerc newydd a fydd yn cychwyn Mis Mai.

**15/833**
Darllenwyd y Cofnodion a phasiwyd eu bod yn gywir. Cynigiwyd gan y Cyng.Rowland Jones ac eiliwyd gan y Cyng.Caredig Jones.

**15/834**
**MATERION YN CODI**

1. WEFAN. Dywedodd y Clerc fod y fenter yn mynd ymlaen yn llwyddiannus. Cadarnhaodd y Cyng.Meic Francis yr hyn a ddywedwyd ac fod angen anfon cofnodion Mis Mawrth iddo. Diolchwyd yn unfrydol i'r Cyng.Meic am ei waith da i baratoi ar ei gyfer.
2. Cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd am y cyfarfod a gynhaliwd yn Llanafan. Darllenwyd e.bost oddiwrth Mr.Derek Baskerville y Clerc ( Trawscoed ) yn cofnodi y llythyr a wnaeth anfon ynghlyn a'r cysylltiadau efo'r Cyngor Sir.
3. Darllenodd y Clerc rhestr o enwau y rhai sydd yn awyddus i gael gwersi i ddefnyddio "Defriballators". Pasiwyd i'r Clerc siarad efo Mr.Glan Davies i gael dyddiad ar ei gyfer. Hefyd y mae angen deg o fobl cyn y medrwn gael dosbarth, pump sydd gennym hyd yn hyn.

**15/835**
**LLYTHYRON**

1. TAI CANTREF CANOLBARTH CYMRU. Gwahoddiad i'r Lansio Ymgynghoriad – Rhan-berchenogaeth gyda Rhwyd Ddiogelwch sydd i'w gynnal yng Nghwesty'r Parc, Aberystwyth ar y 24ain o Ebrill 2015 am 10.30 y.b.
2. Oddiwrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi ei gyhoeddi a gellir gweld yr adroddiad ar y wefan.
3. Oddiwrth Un Llais Cymru efo adroddiad ymateb i Bapur Gwyn (Diwygio Llywodraeth Leol; Grym I Bobl Leol) Hefyd dyddiadau a lleoliad pwyllgorau yn Mis Ebrill 2015.
4. Oddiwrth "Code of Practice on Workforce Matters"- Completion of Annual Monitoring Return.
5. Ffurflen oddiwrth Plismona Bro yng Ngheredigion ynghlyn a pharcio yn Llanilar.
6. Derbyniwyd tri chais ar gyfer torri'r borfa yn y fynwent yn Llanilar. Mr. Phil Jones, Bryngwyn Llanrhystud; Mr.D Benjamin, Coal Yard Tregaron; a Mr.Dan Owens,

Pencwm, Capel Seion. Y mae'r gwaith wedi cael ei gynnig i Mr.Dan Owens Pencwm Capel Seion. Cynigiwyd gan y Cyng.Caredig Jones ac eiliwyd gan y Cyng. John Davies. Pasiwyd hefydysgrifennu i'r ddau na fu yn llwyddiannus y tro yma.

**15/836**
**ARIANNOL**

1. Infois o £500.00 oddiwrth Technoleg Taliesin am y Wefan. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng.Ann Tudor ac eiliwyd gan y Cyng.Meic Francis. Dywedodd y Clerc ei bod wedi derbyn £500.00 o "grant" oddiwrth y Cyngor Sir.
2. Llythyr oddiwrth pwyllgor y Carnifal Llanilar yn gofyn yn garedig am gymorth i dalu am yr yswiriant. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng.Ada Evans ac eiliwyd gan y Cyng.Caredig Jones. Yr amcan gyfrif fydd oddeutu £140.00.
3. Llythyr oddiwrth pwyllgor Peldroed Llanilar yn gofyn am gymorth tuag at y costau. Cynigiodd y Cyng.Rowland Jones y swm o £300.00 fel ag o'r blaen ac eiliwyd gan y Cyng.Meic Francis. Pasiwyd i'w dalu.
4. Infois oddiwrth y Clerc o £108.00 sef tal am wasanaeth i'r Cyngor Cymuned. Pasiwyd i'w thalu. Diolchodd y Cadeirydd iddi am ei gwasanaeth dros yr wyth mlynedd a hanner a aeth heibio a dymunodd yn dda iddi yn ei hymddeoliad.
5. Derbyniwyd llawer o lythyron i ofyn am roddion. Y tro yma pasiwyd i roi £100.00 i'r mudiad y Clybiau Ffermwyr Ieuainc yng Ngheredigion. Cynigiwyd gan y Cyng.Rowland Jones ac eiliwyd gan y Cyng.John Davies. £50.00 yr un i'r canlynol:- 1)
   1) "Gofal Mewn Galar" 2) "Theatr Gydweithredol Troedyrhiw" 3) "Cyngor ar Bopeth" Cynigiwyd gan y Cyng.Ada Evans ac eiliwyd gan y Cyng.Richard Davies.

**15/837**
**CYNLLUNIO**

Cais:- A140418:- Lluest Newydd, Lledrod, Aberystwyth.

Hysbysiad fod y cais wedi cael ei ganiatau

**15/838**
**UNRHYW FATER ARALL**

1. Tynnwyd sylw gan y Cadeirydd i drafod torri a chymeni y fynwent (rhan yr eglwys) eleni eto fel y llynedd. Cynigiodd y Cyng.John Davies ein bod yn gwneud yr unpeth a llynedd. Eiliwyd gan y Cyng.Caredig Jones. Pasiwyd i wneud y tro cyntaf ar y 19ed o Fai. Yn garedig iawn y mae y Cyng.Ann Tudor yn mynd i wneud y posteri.
2. Dywedodd y Cyng.Ann Tudor ei bod wedi cael cwyn fod yna ddefnydd ac arogl drwg ar adegau fel petai yn blocio yn y "culvert" i lawr yn yr Hen Orsaf. Pasiwyd i ysgrifennu i Natural Resources Wales, Rhodfa Padarn, Aberystwyth.

Hefyd y mae yna “Culvert” ar ben lon Tynberllan yn blocio ar adegau ac y meant yn cael trafferth i’w drwsio.

3. Tynnwyd sylw gan y Cyng.Meic Francis ei fod yntau wedi cael cwyn ynghlyn a “quad bike” sydd yn mynd ar y llwybr beicio ac yn creu trafferth. Pasiwyd i ysgrifennu i Cyngor Sir.
4. Dywedodd y Cyng.Rowland Jones fod yna anhwyster efo ffens wrth ymyl cae Bryntirion ac hefyd fod yna “culvert” o’r cae i lawr o dan y rheilffordd yn gorlifo ac yn blocio. Y mae rhaid edrych ar y ffens hefyd rhwng y caeau a’r rheilffordd tua Felindyffryn gan fod anifeiliaid yn crwydro allan ac yn peri pryder. Eto i gysyllti efo’r Cyngor Sir.
5. Dywedodd y Cyng.Richard Davies fod y ffordd gefn i Berthlwyd mewn cyflwr gwael. Eto i gysyllti.
6. Gofynwyd i’r Clerc a’r Cyng.Caredig Jones a oedd yn datgan diddordeb i fynd allan o’r pwyllgor gan fod angen trafod manylion y swydd. Cynigiodd y Cyng.Rowland Jones i’r gyflog fod yn £1700.00 y flwyddyn ac eiliwyd gan y Cyng.Meirion Davies.

Gorffenwyd y Cyfarfod am 10.00 y.h